



Adolygiadau gan Ganolfannau ac Apeliadau 2021

Gwybodaeth i ddysgwyr, rhieni a gofalwyr am adolygiadau gan ganolfannau ac apeliadau ar gyfer TGAU, UG a Safon Uwch CBAC a Thystysgrifau Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru sydd wedi'u cymeradwyo gan Cymwysterau Cymru - Haf 2021

Gan fod eich graddau'n cael eu pennu gan ysgolion a cholegau yng Nghymru eleni, bydd y broses apelio yn wahanol.



Mae'r wybodaeth hon ar gyfer cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch CBAC a chymwysterau Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru.

Os ydych chi wedi astudio ar gyfer cymwysterau eraill, gan gynnwys cymwysterau galwedigaethol neu TGAU neu Safon Uwch a gynigir gan fyrddau arholi eraill, bydd y broses apelio fod yn wahanol – holwch eich ysgol neu goleg, a byddant yn dweud wrthyich sut y gallwch apelio.

Ymgeiswyr preifat

Os ydych chi'n ymgeisydd preifat, mae canllawiau ar gael [yma](#) ar sut y bydd adolygiadau ac apeliadau yn gweithio i chi.

Trosolwg o'r broses apelio ar gyfer haf 2021

1

Adolygiad gan ganolfan

Gall dysgwyr ofyn am adolygiad gan y ganolfan o'r Radd dros dro a Bennwyd gan y Ganolfan ar y sail bod camgymeriad wedi'i wneud wrth bennu ei radd.

Rhaid i ddysgwyr roi rheswm pam eu bod yn credu bod camgymeriad wedi'i wneud wrth bennu eu gradd.

Gall graddau godi, ostwng neu aros yr un peth o ganlyniad.

2

Apêl i CBAC (ar ôl cwblhau Cam 1)

Apêl i CBAC ar y sail bod y dyfarniad y mae'r ganolfan wedi'i wneud yn afresymol a/neu fod gwall gweithdrefnol wedi'i wneud.

Rhaid i ddysgwyr roi rheswm pam maen nhw'n credu bod y ganolfan wedi gwneud dyfarniad afresymol a/neu gamgymeriad gweithdrefnol.

Gall graddau godi, ostwng neu aros yr un peth o ganlyniad.

3

EPRS - Cymwysterau Cymru (ar ôl cwblhau Cam 2)

Cais i Cymwysterau Cymru am Wasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholi (EPRS) er mwyn adolygu a yw CBAC wedi dilyn y gweithdrefnau gofynnol.

Cam 1: Adolygiad gan Ganolfan

- Byddwch yn derbyn eich gradd **dros dro** wedi'i phennu gan y ganolfan gan eich ysgol neu goleg **erbyn 30 Mehefin**.
- Os ydych chi'n credu bod eich ysgol neu goleg wedi gwneud camgymeriad o ran sut maen nhw wedi penderfynu ar eich gradd, gallwch ofyn iddyn nhw ei hadolygu. **Mae'n bwysig eich bod yn gwneud hyn cyn gynted â phosibl, gan fod yr amserlenni ar gyfer cwblhau'r broses adolygiadau gan ganolfannau'n dynn, a bydd angen i'r ysgol neu'r coleg gyflwyno unrhyw newidiadau i raddau i CBAC cyn diwedd y tymor.**
- Gallai canlyniad adolygiad gan ganolfan olygu bod eich gradd yn aros yr un fath, neu gallai godi, neu gallai ostwng.
- Mae'n bwysig eich bod chi ond yn gofyn am adolygiad os ydych yn credu bod camgymeriad wedi ei wneud sydd wedi effeithio ar eich gradd
- Os ydych yn gofyn am adolygiad, yna dylech ddilyn y broses a nodir yn y canllaw hwn, a chan eich ysgol neu goleg. Ni ddylech geisio rhoi unrhyw bwysau ar eich ysgol neu goleg i newid y radd.

Beth i'w wneud os ydych chi'n meddwl bod camgymeriad wedi'i wneud o ran eich gradd

1. Gofynnwch am gael gweld y cofnod gwneud penderfyniadau.

Mae eich cofnod gwneud penderfyniadau yn dangos sut mae eich gradd wedi'i chyfrifo a pha asesiadau sydd wedi'u cynnwys. Cyn i chi ofyn am adolygiad gan ganolfan, siaradwch â'ch ysgol neu goleg am eich gradd a gofynnwch am gael gweld eich cofnod gwneud penderfyniadau ar gyfer y pwnc hwnnw. **Fel arfer, bydd angen i chi ofyn am hyn cyn pen dau ddiwrnod gwaith ar ôl derbyn eich gradd dros dro.** Bydd angen i chi wirio'r amserlenni yn eich ysgol neu goleg. Er ein bod yn disgwyl y dylai eich cofnod gwneud penderfyniadau ddarparu digon o wybodaeth, gallwch ofyn am weld y dystiolaeth asesu y seiliodd eich ysgol neu goleg eu penderfyniad arni.

2. Gofynnwch am adolygiad gan ddefnyddio ffurflen a ddarperir gan eich ysgol neu goleg.

Ar y ffurflen hon, mae angen i chi gynnwys y rheswm pam rydych chi'n meddwl bod camgymeriad wedi ei wneud gyda'ch gradd dros dro. Nid oes angen i chi gyflwyno llawer o wybodaeth nac unrhyw dystiolaeth ychwanegol. Dylech ei chadw'n syml gan ddefnyddio'r ffurflen a ddarperir. **Fel arfer, bydd angen i chi ofyn am adolygiad o fewn pum niwrnod gwaith i dderbyn eich cofnod gwneud penderfyniadau / dystiolaeth asesu.**

Cam 1: Adolygiad gan Ganolfan

Engbreiffiau o'r hyn a allai fod yn gamgymeriad wrth benderfynu ar radd

Nid yw'r radd y mae eich ysgol neu goleg yn ei rhannu â chi yr un fath â'r radd ar eich cofnod gwneud penderfyniadau.

Ni ystyriwyd addasiadau rhesymol nac ystyriaethau arbennig pan ddylent fod.

Ni chafodd tystiolaeth asesu a oedd yn rhan o'r cynllun asesu ei hystyried.

Nid yw'r radd yn cael ei hategu gan y wybodaeth yn y cofnod gwneud penderfyniadau.

Beth yw pwrpas yr adolygiad canolfan a beth nad yw ei bwrpas

Mae adolygiad gan ganolfan ar gyfer amgylchiadau lle rydych chi'n credu bod eich ysgol neu goleg wedi gwneud camgymeriad o ran sut maen nhw wedi cyfrifo eich gradd.

Nid yw'r broses adolygiadau gan ganolfannau a'r broses apelio eleni yn canolbwyntio ar wallau marcio fel y byddai mewn blwyddyn arferol, ond yn hytrach ar y dyfarniad a wnaed gan ysgol neu goleg ar eich gradd, yn seiliedig ar ystod o dystiolaeth. Mae newidiadau bach mewn marciau yn annhebygol iawn o newid y dyfarniad cyffredinol.

Dim ond os credwch fod camgymeriad wedi ei wneud wrth gyfrifo'ch gradd y dylech ofyn am adolygiad gan ganolfan. Ni ddylech ofyn am adolygiad gan ganolfan dim ond am eich bod yn anghytuno â'r radd y mae eich ysgol neu goleg wedi'i rhoi i chi neu'n teimlo eich bod yn haeddu gradd well.

Beth yw pwrpas y cofnod gwneud penderfyniadau

Dyma grynodedb o'r dystiolaeth a ddefnyddiodd yr ysgol neu'r coleg i benderfynu ar eich gradd. Dylai hyn eich helpu i ddeall sut y cyfrifodd eich ysgol neu goleg eich gradd.

Cam 2: apelio i CBAC

- Os ydych yn dal i gredu bod camgymeriad yn eich gradd ar ôl cwblhau'r adolygiad gan ganolfan, gallwch ystyried a ddylid cyflwyno apêl i CBAC.
- Dim ond ar ôl diwrnod y canlyniadau y gellir cyflwyno apêl i CBAC. Fodd bynnag, gallwch ddweud wrth eich ysgol neu goleg os ydych yn bwriadu cyflwyno apêl unwaith y cewch ganlyniad eich adolygiad canolfan.
- Os nad ydych wedi gofyn i'ch ysgol neu goleg am adolygiad gan ganolfan, ond eich bod yn credu bod CBAC wedi gwneud camgymeriad wrth brosesu eich gradd, dylech ofyn i'ch ysgol neu goleg wirio hyn, ac yna gallant gyflwyno apêl i CBAC.
- Rhaid i'r apêl i CBAC gael ei chyflwyno gan yr ysgol neu'r coleg ar eich rhan. Fodd bynnag, chi sy'n gyfrifol am lenwi'r ffurflenni ac amlinellu pam eich bod yn apelio – eich ysgol neu'ch coleg sy'n ei anfon at CBAC ar eich rhan.
- Gallwch ofyn i'ch ysgol neu goleg gyflwyno apêl i CBAC os credwch:
 - na ddilynodd eich ysgol neu'ch coleg y broses gywir wrth gyfrifo eich gradd;
 - bod y dyfarniad a wnaed gan eich ysgol neu'ch coleg ar eich gradd yn afresymol (gweler yr esboniad isod ar farn academaidd afresymol);
 - i CBAC neu'ch ysgol neu'ch coleg wneud camgymeriad wrth brosesu.
- Cyn penderfynu a ddylech gyflwyno apêl i CBAC, gallwch ofyn am gael gweld y dystiolaeth asesu y seiliodd eich ysgol neu goleg eu penderfyniad arni.
- Gallai canlyniad apêl olygu bod eich gradd yn aros yr un fath, neu gallai godi, neu gallai ostwng.
- Rhaid cyflwyno apelïadau i CBAC o fewn yr amserlenni canlynol:

| UG a Safon Uwch a'r Dystysgrif Her Sgiliau Uwch | |
|-----------------------------------------------------------------------------------|--------------------------|
| Apeliadau blaenoriaeth (y rhai sy'n aros am le mewn sefydliad addysg uwch) | 10 – 23 Awst |
| Apeliadau nad ydynt yn flaenoriaeth | 10 Awst – 17 Medi |
| TGAU a'r Dystysgrif Her Sgiliau Sylfaen a Chenedlaethol | |
| Pob apêl | 24 Awst – 21 Medi |

Beth yw barn academaidd afresymol?

Eleni, mae pob ysgol a choleg yn gyfrifol am bennu graddau ar gyfer eu dysgwyr. Mae gan bob ysgol a choleg yr hyblygrwydd i benderfynu ar y ffordd orau o asesu eu dysgwyr a sut maen nhw'n defnyddio'r dystiolaeth asesu honno i wneud penderfyniad ar radd pob dysgwr. Bydd eich ysgol neu goleg yn cydbwysu'r ystod o dystiolaeth i wneud penderfyniad am y radd sy'n cynrychioli eich gwaith orau.

Ni all CBAC ond edrych ar y dystiolaeth y mae eich ysgol neu goleg wedi'i hystyried a'r rheswm dros y radd a nodir yn y cofnod gwneud penderfyniadau. Yna bydd yn barnu a yw'r radd a roddir i chi yn rhesymol neu'n afresymol. Ni fydd yn ail-farcio asesiadau.

Byddai'r radd yn cael ei hystyried yn afresymol os nad yw'r dystiolaeth neu'r rhesymeg a ddefnyddir gan eich ysgol neu'ch coleg yn cefnogi'r radd a ddyfarnwyd o gwbl. Mae adolygwyr CBAC yn annhebygol o allu penderfynu y byddai newid i un radd islaw, neu un radd uwchlaw eich gradd yn fwy cywir. Er enghraifft, os yw penderfynwr CBAC ar gyfer yr apêl yn teimlo y gallai'r dystiolaeth gefnogi naill ai gradd D neu radd C, yna ni allent ddweud bod rhoi gradd D i chi yn afresymol.

Os bydd CBAC yn canfod bod gradd yn afresymol, bydd yn dyfarnu gradd newydd y mae'n ei hystyried sy'n adlewyrchu'r dystiolaeth a welodd orau.

Cam 3: EPRS

- Cynhelir yr EPRS (Gwasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholi) gan Cymwysterau Cymru.
- Dyma'r cam olaf yn y broses apelio.
- Yng Ngham 3, yr EPRS:
 - byddwn yn gwirio a yw CBAC wedi cydymffurfio â'u gweithdrefnau eu hun a'n gofynion rheoliadol;
 - **ni fyddwn yn** adolygu a yw'r ganolfan wedi dilyn y broses gywir (bydd CBAC yn cynnal y rhan honno o'r broses apelio yng Ngham 2);
 - **ni fyddwn yn** adolygu cywirdeb y penderfyniad graddio;
 - **ni fyddwn yn** newid unrhyw raddau.
- Os byddwn yn nodi nad yw CBAC wedi dilyn y broses gywir, byddwn yn gofyn i CBAC ystyried a gafodd y methiant effaith ar ganlyniad yr apêl.

Yn ymarferol, ni fydd yr EPRS ond yn nodi methiannau gweithdrefnol ar ran CBAC, ac mae'n annhebygol o arwain at newidiadau mewn barn ynghylch a oedd y radd yn afresymol, oni nodir methiant sylweddol. Bydd rhagor o fanylion am y broses EPRS yn cael eu cyhoeddi ym mis Mehefin.

Cymorth os ydych yn apelio

Os oes angen unrhyw gymorth arnoch ar ôl derbyn eich gradd dros dro, siaradwch â'ch ysgol neu goleg – byddant yn gallu rhoi cyngor i chi ar beth i'w wneud nesaf, a'ch cyfeirio tuag at y lle cywir i gael y cyngor a'r cymorth sydd ei angen arnoch.

Os ydych yn ddysgwr Safon Uwch ac nad yw'r radd dros dro a bennir gan y ganolfan yr hyn sydd ei hangen arnoch i fodloni eich cynnig prifysgol, peidiwch â phoeni – siaradwch â'ch ysgol neu'ch coleg. Peidiwch â chysylltu â'r prifysgolion rydych wedi gwneud cais iddynt, gan y byddan nhw ond yn gwneud penderfyniadau derbyn pan fydd graddau terfynol yn cael eu cyhoeddi ar ddiwrnod y canlyniadau.

Gallwch weld [dolenni defnyddiol](#) ar wefannau, Cymwysterau Cymru a CBAC, ac mae mwy ar gael ar wefan Hwb, y gallwch hefyd gael mynediad iddo o'r ddolen hon. Ceir gwybodaeth ar wefan Comisiynydd Plant Cymru am wasanaethau am ddim ledled Cymru sy'n cynnig cymorth.

Cwestiynau cyffredin

Pryd fydda i'n gwybod beth yw fy ngraddau?

Ym mis Mehefin, bydd eich ysgol neu'ch coleg yn dweud wrthy'ch beth yw eich Gradd/au dros dro a Bennwyd gan y Ganolfan. Mae'r graddau hyn yn rhai dros dro tan ddiwrnod y canlyniadau, pan gânt eu cwblhau gan CBAC.

Pryd allaf i ofyn am adolygiad gan ganolfan?

Gallwch ofyn am adolygiad gan ganolfan cyn gynted ag y byddwch yn derbyn eich Gradd dros dro a Bennir gan y Ganolfan. Yr hwyraf y byddwch yn derbyn hyn yw 30 Mehefin.

Os nad yw eich ysgol neu goleg yn rhoi cofnod gwneud penderfyniadau i chi gyda'ch gradd, mae gennych ddau ddiwrnod gwaith o'r adeg y byddwch yn derbyn eich gradd i ofyn am hyn. Dylai'r cofnod gwneud penderfyniadau roi digon o wybodaeth i chi benderfynu a ddylid gofyn am adolygiad gan ganolfan. Byddwch yn cael pum niwrnod gwaith o'r adeg y byddwch wedi derbyn yr holl dystiolaeth berthnasol i benderfynu a ydych am ofyn am adolygiad.

Ar gyfer beth y defnyddir y cofnod gwneud penderfyniadau?

Mae cofnod gwneud penderfyniadau dysgwr yn grynodedb o'r dystiolaeth a ddefnyddiodd y ganolfan i benderfynu ar eich gradd. Dylai'r cofnod gwneud penderfyniadau dysgwr roi digon o wybodaeth i chi benderfynu a ydych chi'n credu bod camgymeriad wedi ei wneud yn eich gradd. Mae graddau eleni yn seiliedig ar ddyfarniad a wnaed gan ysgol neu goleg ar eich gradd ar sail ar ystod o dystiolaeth. Y radd gyffredinol a ddyfernir, nid marciau ar ddarnau unigol o waith, yr ydych yn gofyn iddynt eu gwirio.

A allaf i weld y dystiolaeth asesu?

Dylai eich cofnod gwneud penderfyniadau dysgwr roi digon o wybodaeth i chi i'ch helpu i ddeall sut y penderfynwyd ar eich gradd. Os ydych chi'n teimlo ei bod yn hanfodol i chi weld copïau o'r dystiolaeth asesu a ystyriwyd gan yr ysgol neu'r coleg wrth wneud eu penderfyniad cyn y gallwch benderfynu a ydych am ofyn am adolygiad ai peidio, gallwch ofyn am gael ei weld. Byddwch hefyd yn gallu gofyn am y dystiolaeth cyn penderfynu a ddylid cyflwyno apêl Cam 2 i CBAC.

Pam na allaf gael fy ngwaith wedi ei ail-farcio?

Nid yw'r broses adolygiadau gan ganolfannau a'r broses apelio eleni yn canolbwyntio ar wallau marcio fel y byddai mewn blwyddyn arferol, ond yn hytrach ar y dyfarniad a wnaed gan ysgol neu goleg ar eich gradd yn seiliedig ar ystod o dystiolaeth. Mae newidiadau bach mewn marciau yn annhebygol iawn o newid y dyfarniad cyffredinol.

A yw'r broses apelio yn berthnasol i gymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch a gynigir gan AQA, Eduqas, OCR a Pearson?

Nac ydy, mae'r broses hon ond yn berthnasol i gymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch cymeradwy, a'r Tystysgrifau Her Sgiliau a gynigir gan CBAC yng Nghymru. Mae trefniadau ar wahân ar waith ar gyfer y cymwysterau hyn. Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am y dull [yma](#). Mae'r trefniadau ar gyfer y cymwysterau hyn yn golygu NA fydd graddau dros dro yn cael eu rhannu â dysgwyr ym mis Mehefin.

Cwestiynau cyffredin

A yw'r broses apelio yn berthnasol i BTECs a chymwysterau galwedigaethol eraill?

Nac ydy, mae'r broses hon ond yn berthnasol i gymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch cymeradwy, a'r Tystysgrifau Her Sgiliau a gynigir gan CBAC yng Nghymru. Yr eithriad i hyn yw Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 2 a Lefel 3: Egwyddorion a Chyd-destunau a Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant (Uned 216) CBAC, a fydd yn cael eu trin yr un fath â'r cymwysterau TGAU a gynigir gan CBAC.

Mae trefniadau ar wahân ar waith ar gyfer yr holl gymwysterau galwedigaethol eraill ac NI fydd graddau dros dro yn cael eu rhannu â dysgwyr ym mis Mehefin. Bydd dysgwyr sy'n dymuno apelio yn erbyn eu graddau yn gallu gwneud hynny gyda'r bwrdd arholi perthnasol ar ôl diwrnod y canlyniadau. Bydd canlyniadau ar gyfer cymwysterau galwedigaethol lefel 2 a lefel 3 yn cael eu cyhoeddi ar neu cyn 10 Awst a 12 i gyd-fynd â TGAU ac UG/Safon Uwch.

Os oes angen cymorth arnaf, beth allaf i ei wneud?

Mae gan [Cymwysterau Cymru](#), [CBAC](#) a [Chomisiynydd Plant Cymru](#) wybodaeth am les a chymorth. Gallwch siarad â'ch ysgol neu'ch coleg, neu oedolion dibynadwy eraill am gymorth.

Pryd fyddaf i'n cael fy nghanlyniadau terfynol?

Cewch eich canlyniadau o'ch ysgol neu'ch coleg ddydd Mawrth 10 Awst ar gyfer Safon Uwch ac UG a dydd Iau 12 Awst ar gyfer TGAU. Bydd eich ysgol neu goleg yn dweud wrthyfch am y trefniadau ar gyfer eu derbyn.

Beth os nad ydw i'n hapus gyda'm canlyniadau terfynol?

Ar ôl diwrnod y canlyniadau, ni ellir cyflwyno apeliadau Cam 2 i CBAC oni bai eich bod wedi gofyn am adolygiad gan ganolfan a'i fod wedi'i gwblhau. Yr unig eithriad yw apêl ar y sail bod camgymeriad wedi ei wneud wrth brosesu rhwng yr ysgol neu'r coleg a CBAC ac y dosbarthwyd y radd anghywir o ganlyniad. Os bydd CBAC yn penderfynu bod camgymeriad wedi ei wneud a'i fod wedi effeithio ar eich gradd, byddwch yn cael gradd newydd. Gallai'r radd hon fod yn uwch neu'n is na'r un y gwnaethoch apelio yn ei herbyn.

A oes unrhyw ffordd arall o apelio?

Cam 3 (y Gwasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholi) yw cam olaf y broses apelio ac mae'n cael ei gynnal gan Cymwysterau Cymru. Mae'n gwirio a yw CBAC wedi dilyn y broses gywir wrth ystyried yr apêl. Yn ymarferol, ni fydd yr EPRS ond yn nodi methiannau gweithdrefnol ar ran CBAC, ac felly mae'n annhebygol o arwain at newid mewn barn ynghylch a oedd y radd yn afresymol, oni nodir methiant sylweddol. Bydd rhagor o fanylion am y broses EPRS yn cael eu cyhoeddi ym mis Mehefin.

Cwestiynau cyffredin

Allaf gysylltu â phrifysgolion pan fyddaf yn derbyn Graddau a Bennir gan y Ganolfan dros dro ym mis Mehefin?

Na allwch, mae'r radd a bennir gan y ganolfan yn dal i fod yn un dros dro nes bod y graddau terfynol yn cael eu cyhoeddi gan CBAC ar ddiwrnodau'r canlyniadau. **Ni fydd** prifysgolion yn derbyn graddau dros dro ar gyfer prosesau derbyn, ac ni ddylid cysylltu â nhw hyd nes y caiff canlyniadau swyddogol eu rhyddhau ar 10 Awst 2021, gan fod y broses adolygiadau gan ganolfannau a'r broses sicrhau ansawdd allanol yn parhau.

Beth os yw fy ngraddau dros dro yn is na'r hyn y mae ei angen arnaf i fynd i'r brifysgol o'm dewis?

Peidiwch â phoeni – siaradwch â'ch ysgol neu'ch coleg. Cofiwch mai dim ond yn seiliedig ar ganlyniadau terfynol y bydd prifysgolion yn gwneud penderfyniadau derbyn. Ceir gwybodaeth ar hwb gwybodaeth Comisiynydd Plant Cymru am gyfleoedd eraill a chlirio.

Rhestr termau

Graddau a Bennir gan Ganolfannau

Mae'r ffordd y dyfernir graddau yn 2021 yn wahanol i'r llynedd. Nid graddau a ragwelir yw Graddau a Bennir gan y Ganolfan. Bydd graddau dysgwyr yn seiliedig ar ystod o dystiolaeth asesu. Mae ysgolion a cholegau wedi cael arweiniad i gefnogi eu gwaith graddio, ond mae ganddynt lawer iawn o hyblygrwydd a gallant ddewis y dystiolaeth a ddefnyddiant i bennu graddau. Gallai hyn fod yn asesiadau y mae dysgwyr eisoes wedi'u cwblhau neu'n asesiadau newydd.

Adolygiad gan ganolfan

Mae adolygiad gan ganolfan yn caniatáu i ddysgwyr ofyn am adolygiad lle maent o'r farn bod camgymeriad wedi'i wneud wrth benderfynu ar eu gradd – mae'r ffocws ar y radd gyffredinol, nid ar farcio asesiadau unigol. Nid oes disgwyl i ganolfannau ailfarcio asesiadau. Bydd angen i ddysgwyr esbonio natur y camgymeriad yn fyr wrth ofyn i ganolfan adolygu gradd.

Cofnod gwneud penderfyniadau

Mae'r cofnod gwneud penderfyniadau yn rhoi mynediad i ddysgwyr at wybodaeth a fydd yn eu helpu i ddeall pam y dyfarnwyd y graddau iddynt. Mae hefyd yn eu helpu i wneud penderfyniad gwybodus ynghylch a ydynt yn credu bod camgymeriad wedi ei wneud wrth benderfynu ar eu gradd.